



2000 o Flynyddoedd o Goncwest

Taith yn ôl mewn amser drwy Gaernarfon o heddiw i oes y Rhufeiniaid

Hyd: 1-2 oriau - Cerdded Cymedrol

Dechreuwch eich taith yn arddangosfa 'Ein Treftadaeth' a Chanolfan Croeso yn **Oriel Pendeitsh (1)** gyferbyn â'r fynedfa i'r castell i gyfarwyddo â hanes cyffrous Caernarfon.

Adeiladodd Edward I **Gastell Caernarfon (2)** i fod yn gaer o balas ac adeiladodd y lle i wneud argraff. Roedd newydd orchfygu tywysogion annibynnol Gwynedd ac roedd am gadarnhau ei enillion gyda chyfres o gestyll mawreddog, a Caernarfon efallai yw'r mwyaf ysblennydd.

Adeiladodd Edward hefyd wal o amgylch y dref i'w gwahanu oddi wrth y boblogaeth leol Gymraeg. Ewch drwy'r bwlch yn wal y dref sy'n gadael trafniadaeth cyfoes drwyddo a cerddwch i'r sgwâr hanesyddol, **Y Maes (3)** yng nghanol Caernarfon.

Cerddwch i fyny'r brif stryd siopa (Stryd Llyn) ac i fyny'r allt i'r Gaer Rhufeinig **Segontium (4)** a adeiladwyd yn 77/78 AD (10 munud o gerdded). Gellid olrhain llawer o'r amlinelliad gwreiddiol hyd heddiw. Roedd yn cynnwys adeiladau fel, er enghraifft graneri, barics a baddondai.

O Segontium cerddwch i lawr yr allt i **Hen Walia (5)** y gaer fechan neu'r warws Rufeinig wrth ochr y porthladd sy'n dyddio o'r 3ed ganrif. Y man gorau i edrych ar y waliau sy'n sefyll yw o faes parcio clinig y GIG sydd gyferbyn â modurdy Texaco ar South Road.

Croeswch y brif ffordd a dilyn y llwybr (rhwng yr hen ysgol a

modurdy Texaco) gan ddod allan ar Deras Segontium. Croeswch y bont wrth **Reilffordd Eryri (6)**.

Cerddwch yn ôl tuag at y castell i'r **Cei Llechi (7)** ger Afon Seiont. Adeiladwyd y cei yn benodol i allforio llechi yn ystod y G19eg.

Dilynwch yr arfordir gyda'r castell ar yr ochr dde i chi ar hyd y promenâd hardd tuag at **Ddoc Victoria (8)** sydd ar hyn o bryd yn ardal ddiwylliannol a manwerthu ffyniannus.



Castell Caernarfon © Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron)



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014